**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

516/51

# ASTUDIO'R CYFRYNGAU ME6

## Testun a Chyd-destun

P.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

(2½ awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:
- gwylio darn o dâp fideo/DVD;
- Deunydd Adnoddau;
- llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **y ddau** gwestiwn.

**Cyfarwyddiadau ar gyfer Cwestiwn 1**

Darllenwch y cwestiwn i sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'i ofynion.

Chwaraeir y darn o dâp fideo/DVD chwe gwaith mewn tri dangosiad ar wahân.

Y tro cyntaf, gwyliwch a gwrandewch yn unig.

Yn ystod yr ail ddangosiad cewch wneud nodiadau.

Cewch ddeng munud i wneud nodiadau eraill ac i feddwl am eich ateb i'r cwestiwn.

Yn ystod y trydydd dangosiad, y dangosiad olaf, cewch wneud nodiadau ychwanegol.

Dylech dreulio tuag un awr yn cwblhau eich ateb i Gwestiwn 1.

**Cyfarwyddiadau ar gyfer Cwestiwn 2**

Defnyddiwch y deunydd adnoddau i'ch helpu i ateb Cwestiwn 2.

Dylech dreulio tuag un awr wrth ateb y cwestiwn hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Papur **synoptig** yw hwn, sy'n dwyn holl agweddau'r cwrs ynghyd ac yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd eisoes.

Asesir ymgeiswyr ar eu gallu i gyfathrebu'n ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **y ddau** *gwestiwn.*

**1**. Mae'r darn yn cynnwys rhaghysbyseb *(trailer)* ar gyfer ail gyfres y ddrama deledu'n ymwneud â throsedd, *Murder Investigation Team*. Dangoswyd hi ar ITV1 yn 2005.

*(a)* Dadansoddwch y rhaghysbyseb ac esboniwch sut mae'n creu diddordeb ac apêl ar gyfer cynulleidfa. [35]

*(b)* Pam mae dramâu sy'n ymwneud â throsedd *(crime dramas)* yn bwysig i ddarlledwyr teledu? Cyfeiriwch at enghreifftiau yn eich ateb. [15]

**2.** Edrychwch ar glawr y DVD ar gyfer *Messiah*, drama gan y BBC sy'n ymwneud â throsedd.

Cymharwch y ffyrdd y mae'r rhaghysbyseb ar gyfer *Murder Investigation Team* a chlawr y DVD ar gyfer *Messiah* yn defnyddio codau a chonfensiynau'r *genre* sy'n ymwneud â throsedd. [50]